

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

1/2/2018

Presennol: Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Sharon Evans, Dilys Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*)

Ymddiheuriadau: Eluned Jones, Eifion Roberts

1. Croesawyd pawb gan y Maer; cyfeiriodd at ei hymweliad â Neuadd Buddug pryd y dangoswyd y ffilm *Breathe* i gyd-fynd ag ymdrechion Clybiau Rotari i ddileu'r cyflwr polio.
2. Cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd: cododd A Arrowsmith ymwybyddiaeth y Cyngor o ymchwiliadau i addasrwydd morgloddiau Llyn Tegid pe byddai llif difrifol, er mor annhebygol oedd hynny i ddigwydd. Deallwyd fod CNC eisoes wedi cynnal cyfarfodydd gyda rhan-ddeiliaid allweddol a bod cyfarfod arall ymhen yr wythnos. Diolchwyd i Mr Arrowsmith am dynnu sylw'r Cyngor at y mater. (Nid oedd A Price yn bresennol yn ystod y drafodaeth).

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor, cytunodd y Cynghorwyr fod y pwnc yn fater o frys oherwydd amseriad cyfarfod nesaf CNC. Cytunwyd felly - gan na chafodd y Cyngor Dref fel cynrychiolwyr trigolion Y Bala wahoddiad i'r cyfarfod hwnnw - i osod y mater ar Agenda mis Mawrth ac i wahodd Mr Arrowsmith yn ôl i adrodd ar ei sylwadau o'r cyfarfod hwnnw.

Gan fod cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol, adroddwyd am ddifrod a oedd wedi digwydd yn ystod yr wythnos diwethaf i fwrdd gwybodaeth ar Y Domen. Soniwyd fod cyflymder ar hyd Heol Ffrydan a thros y bont mewn i'r dref yn parhau yn broblem, a nodwyd dymuniad y Cyngor i weld presenoldeb yr uned atal cyflymder yno. Dywedodd yr heddlu fod troseddau diweddar yn derbyn sylw ac anogwyd trigolion i roi gwybod (yn gwbl gyfrinachol) os oes ganddynt bryderon; gellir ffonio 101 os nad yw'n fater o argyfwng. Cytunwyd i anfon at Gethin Jones, y Swyddog Ardal, i'w atgoffa o bryderon lleol am ddylanwad defnyddwyr cyffuriau ar bobl iau a bregus.

3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 4ydd 2018.
5. **Materion y Clerc:** Derbyniwyd neges am Feibl hanesyddol sydd ar hyn o bryd yn adeilad Banc Barclays. Cytunwyd i ddangos diddordeb y Cyngor ac i anfon ar Lis Saville Roberts i'r perwyl hwnnw.

Derbyniwyd neges am ddulliau o raeanu ardal y Ganolfan Hamdden; cadarnhaodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi anfon ei sylwadau at y Llywodraeth ac at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond nad oedd wedi derbyn atebion hyd yn hyn..

Derbyniwyd gwybodaeth am y Ddeddf Gwarchod data. Disgwylir mwy o fanylion am yr oblygiadau i'r Cyngor.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir. Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod y broses o ddynodi Heol Ffrydan yn ardal 20mya wedi dechrau. Cyfeiriodd at y Timau newydd a fydd yn gweithio gyda phlant ac oedolion. Dywedodd y byddai Cyngor Gwynedd yn tacluso'r coed sy'n tyfu ar lwybr Cae Mawr. Mae'r sefyllfa parcio yn y Parc Menter eisoes yn well nag y bu ac mae trafodaethau'n digwydd i neilltuo rhan o faes parcio'r Grŵn at ddefnydd gweithwyr yn y Parc Menter.
7. **Toiledau Cyhoeddus:** Mae'r drafodaeth yn parhau gyda Chyngor Gwynedd parthed sefyllfa toiledau'r Grŵn.
8. **Lloches bws:** Mae'r Cyngor yn parhau i ddisgwyl i NMWTRA gyflawni'r addewid i ddynodi safle parcio i'r anabl wrth yr Eglwys Gatholig cyn y gellir bwrw ymlaen i leoli lloches bws yno. Yn y cyfamser bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn trafod dyluniadau posib gyda chwmnïau sy'n darparu llochesi bws.
9. **Nadolig:** Mae'r Cynghorydd a'r Clerc yn parhau i bwysu am ddychwelyd y goleuadau a dynnwyd o'r coed.
10. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau cynllunio.
11. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol. Derbyniwyd llythyr gan HMRC am yr angen i oedi cyn hawlio TAW hyd nes bod eu sustem gyfrifiadurol wedi ei huwchraddio. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
12. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr. Mae Rheolwr Canolfan Tegid wedi cytuno i gadw eitemau hanesyddol y Cyngor yn y Storfa. Cyhoeddodd Dorothi Evans ei bwriad i gamu lawr o gynrychioli'r Cyngor ar y Bartneriaeth oherwydd pwysau gwaith. Derbyniodd Rhys Evans yr enwebiad i gynrychioli'r Cyngor.
13. **Gohebiaeth:** Rhoddwyd ystyriaeth i Gynigion (drafft) Arolwg ffiniau etholiadol Cyngor Gwynedd; nid oes newid sy'n effeithio ar Y Bala.

Cytunodd y Clerc i fynychu panel i drafod cyfeiriad cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol.

Cytunwyd i roi ystyriaeth lawn i Fodel Polisi iaith a gynigir gan Un Llais Cymru cyn y Cyfarfod Blyneddol.

Cytunwyd i fynegi diddordeb mewn cael offer Technoleg Gwybodaeth mewn Canolfan Cymunedol yn y dref.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Parc Cenedlaethol Eryri am y Cynllun datblygu Lleol 2016-2031.

11.Asedau'r Cyngor: Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Diolchwyd iddi a gofynnwyd iddi drafod gyda gwardeiniaid lleol Parc Cenedlaethol Eryri lleoliadau addas i osod meinciau rhwng Awel y Coleg a'r dre. Cytunodd J C Williams i ofyn i saer drwsio'r bwrdd gwybodaeth a fandaleiddiwyd ar Y Domen. Cytunodd y Clerc i chwilio am faneri pvc oherwydd bod baneri a wnaed o ddefnydd yn breuo'n fuan yn y gwyntoedd garw. Diolchodd y Maer i bawb am eu cyfraniad.

12.Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Adroddodd Sharon Evans ei bod eisoes wedi trafod gyda CNC yr angen am drwsio'r ffens ar lwybr Rowen ac y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn fuan.
- ii. Cytunodd Sharon Evans i drafod diogelwch y tyllau archwilio ar lwybr Ro-wen gyda CNC.
- iii. Cwynion am y polion cerrig ar y Stryd Fawr: tynnwyd rhai wrth uwchraddio'r Stryd Fawr y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oedd NMWTRA yn fodlon tynnu'r gweddill.